

Cymuned Bach!

Dydd Gwener y Groglith

Stori

Penblethau

Lliwio

Gweddion

Gemau

Crefft



Diwrnod Trist

Pan oedd Iesu a'i ffrindiau wedi gorffen eu pryd ffarwel, cerddon nhw i ardd i weddio. Dyna lle y daeth gelynyon Iesu o hyd iddo.

Roedd gan y dynion ffaglau a phastynau a ffyn. Roedden nhw'n frawychus. Ac yno, yn y blaen, roedd Jwdas a fu'n un o ffrindiau Iesu.

Sleifiodd Jwdas at Iesu a'i gusanu ar ei foch. "Dyma'r dyn rydych chi'n chwilio amdano!" meddai Jwdas. "Arestiwch ef!" Edrychai Iesu'n drist iawn.

Roedd ofn ar ffrindiau Iesu. Rhedodd y rhan fwyaf ohonyn nhw i ffwrdd. Ond nid Pedr. Tynnodd gleddyf a dechrau ei chwifio o gwmpas.

"Rho dy gleddyf yn ol," meddai Iesu. "Nid amser i ymladd yw hwn. Mae'n rhaid i mi fynd gyda nhw. Mae Duw eisiau i mi wneud hynny."

Felly dyma nhw'n gafael yn Iesu, a'i lusgo o flaen yr arweinwyr crefyddol - y rhai oedd yn eiddigeddus ohono. Parhaodd ei brawf drwy'r nos.

"Mae e'n dweud y bydd e'n dinistrio ein teml ni," meddai un dyn.

"Mae e'n dweud ei fod e'n frenin," meddai un arall.

"Mae e'n codi twrw ym mhob man!" meddai pawb.

Doedd hyn ddim yn wir, wrth gwrs. Ond doedd hynny ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth, oherwydd roedd yr arweinwyr eisoes wedi penderfynu. Roedd Iesu yn wahanol iddyn nhw. Wnai e ddim gwneud yr hyn a fynnen nhw. Felly bydd rhaid i Iesu farw.

Fe guro'n nhw Iesu. Ei guro'n galed. Wedyn fe aethon nhw a'i ddillad oddi arno, rhoi hen fantell am ei ysgwyddau a gwthio coron o ddrain ar ei ben. Wrth i'r gwaed lifo dros ei dalcen, dyma nhw'n galw enwau arno a chwerthin am ei ben. "Felly rwy'ti'n meddwl dy fod ti'n frenin?" medden nhw.

"Wel, edrych arnat ti nawr!"

Ddwedodd Iesu yr un gair. Roedd ei gorff yn brifo, ei galon yn torri, ond ddwedodd e'r un gair.

Yna, fe gymeron nhw groes, wedi ei gwneud o bren trwm, a'i gosod ar ei gefn. "Symud!" gwaeddon nhw, a'i arwain drwy'r ddinas. Llefodd rhai pobl pan welson nhw e. Cymeradwyodd eraill. Ond aethon nhw i gyd ar ei ol wrth iddo gario'r groes drwy gatiâu'r ddinas ac i fyny bryn cyfagos.

Pan ddaethon nhw i gopa'r bryn, rhoddon nhw Iesu i orwedd ar y groes a'i hoelio arni. Roedd hynny'n brifo'n ofnadwy. Wedyn codon nhw'r groes, fel bod pawb yn medru gweld, a'i adael e yno i farw.

Roedd ofn ar leidr oedd yn hongian nesaf ato. On siaradodd Iesu ag e a'i helpu i deimlo'n well.

Roedd mam Iesu yno hefyd, yn sefyll yn y dorf. Felly galwodd Iesu ar un o'i ffrindiau. "Gofala amdani hi i mi, wnei di loan? Dy fam di yw hi nawr."

Ond oedd y rhan fwyaf o'r wynebâu yn y dorf ddim mor garedig. "Fe wnest ti achub pobl eraill," chwarddodd rhywun, "felly pam na fedri di achub dy hun?"

Gwyddai Iesu pam. Nid am fod ei elynion wedi ennill. Ond am fod Duw eisïau iddo fod yno - i fynd a'r holl bethâu drwg roedd unrhyw un wedi eu gwneud erioed.

Cyn bo hir aeth yr awyr yn dywyll a chrynodd y ddaear. Roedd fel petai calon Duw ei hun yn torri. Ac wedyn fe ddigwyddodd.

"Mae popeth wedi ei wneud," sibrydodd Iesu, ac yn y tristwch a'r tywyllwch, bu farw.

**Awdur: Bob Hartman & Krisztina Kallai Nagy
Wedi eu cymerud o Beibl Newydd Y Storiwr
Addasiad Cymraeg gan Cynthia Davies**

Cerddoriaeth

Can Saesneg: When I think about the Cross gan Ark Music Collective

When I think about the cross,
When I think of Jesus,
I'm reminded of his love-
Love that never leaves me.
Who am I that He should die,
Giving life so freely?
When I think about the cross,
Help me to believe it.
(Repeat twice more)

Gweddi Creadigol

TOES Y GROES

Cafodd ei ladd drwy gael ei hoelio ar bren ganddyn nhw. Actau 10:39

Bydd Angen: Toes y groes un ar gyfer pob un sy'n cymerud rhan

Cyfarwyddiadau

1. Pam ydyn ni'n bwyta Toes y Groes a'r dydd Gwener y Grogolith? Mae miloedd o bobl yn wahanol wledydd yn bwyta toes y groes i gofio sut wnaeth Iesu marw ar y groes drosom ni.
2. Meddylwch am rhai o'r gynhwysion sydd angen i greu y toes. Mae angen berem i wneud i'r toes tyfu: mae hefyd yn gallu atgoffa ni na wnaeth Iesu aros yn farw - ond cododd eto.
3. Mae ganddo ffrwythau sych sy'n atgoffa ni o'r pethau da sy'n dod i ni trwy marwolaeth Iesu. Heb ei farwolaeth ar y groes y byddwn ni ddim yn gallu mwynhau bywyd.
4. Mewn amser o tawelwch mwynhewch bwyta'r toes y groes ac wrth bwyta dywedwch diolch i Dduw am ei fod e'n barod i marw drosom ni.

Y Pasg

a b g z q d i d x y v w j
s a s z z r s e o r c y q
p s a h u n z y x l f a z
v g p s o y x a d v o u b
q e y i x p d s r r j t y
i d n o m l b c a t k n h
p w e c v m z u r u n e e
s y g l z e m a x r e g j
k a n e s x l d j z o n h
h u i d k t x o b h k i h
o m n w o i j l a a n n e
z c w o s w i b o a t w t
w y c x i e s u j t s c x

croes

siocled

cwningen

wyau

oen

het

cyw

blodau

cwningen y Pasg

Iesu

basged wyau

Creftiau

Creu Groes

Bydd Angen

Carden wedi torri mewn i siap groes

Foam hefyd wedi torri mewn i siap groes

Foil o'r gegin

Pensil


Glud

Cyfarwyddiadau

1. Gludwch y foam i'r carden, a'r foil dros y'r holl peth wrth cadw yn esmwyth
2. Defnyddiwch y pensil i greu patrwm ar y groes.



Mat Toes



Defnyddiwch
toes i lenwi'r
croes

Tynwch wynebau
trist a'r y bobl



